



## Deddf Diogelu Data 1998 - Cais am Fynediad i Wybodaeth am Unigolyn

Dan y Ddeddf Diogelu Data mae gennych yr hawl i weld yr wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi.

Mae'n rhaid i chi wneud cais ffurfiol i weld eich gwybodaeth (cais am fynediad i wybodaeth am unigolyn) ac mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon.

Defnyddir y ffurflen hon i

- gadarnhau mai chi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth (yr unigolyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddo/i ac felly sy'n wrthrych y data personol),
- cadarnhau mai chi yw'r ymgeisydd ac i gadarnhau hefyd eich bod yn awdurdodi'r cais (lle bo'n berthnasol)
- helpu i ddod o hyd i Ddata personol sy'n ymwneud â'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth.

ac

- i gadarnhau mai chi yw'r unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth ac i gadarnhau eich cyfeiriad cyn rhyddhau gwybodaeth bersonol. Bydd prawf mai chi yw'r unigolyn dan sylw yn cael ei ddefnyddio i brosesu'r cais yn unig, ac nid i unrhyw ddiben arall.

Ar ôl cwblhau'r ffurflen anfonwch hi i'r cyfeiriad ar waelod y ffurflen. Os ydych angen help:

Ffoniwch: 01492 576070 Ffacs: 01492 574030

E-bost: [uned.llyw-gwy@conwy.gov.uk](mailto:uned.llyw-gwy@conwy.gov.uk)

Mae CBS Conwy yn hyrwyddo tegwch a bod yn agored ynghylch yr wybodaeth rydym yn ei chadw. Mae rhagor o wybodaeth yn ein llyfryn am ddim 'Diogelu Data'. Os hoffech dderbyn copi ffonwch 01492 576070

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r ffurflen hon at y diben a fwriadwyd ac ni fydd yn ei datgelu i unrhyw barti arall, ac eithrio lle gofynnir am hynny gan y gyfraith, heb ganiatâd yr unigolyn dan sylw. I gael gwybod rhagor ewch i <http://www.conwy.gov.uk/prosesuteg>

## Rhan 1 - Pwy yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth?

Enw llawn yr Unigolyn  
dan sylw yn yr  
Wybodaeth

Dyddiad Geni

Cyfeiriad

Tref / Pentref

Cod Post

Os yw'r Unigolyn dan  
sylw yn yr Wybodaeth  
wedi byw yn y cyfeiriad  
hwn am lai na 3  
blynedd, rhowch  
fanylion eu cyfeiriad  
blaenorol

Cod Post

Rhif ffôn (dewisol)

Cyfeiriad e-bost  
(dewisol)

Ydy'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth erioed wedi'i gyflogi gan CBS  
Conwy?

Ydi

Nac ydi

Ddim yn  
gwybod

Ydy'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth wedi byw ym Mwrdeistref Sirol  
Conwy erioed?

Ydi

Nac ydi

Ddim yn gwybod

## Rhan 2 - Beth yw eich Manylion Personol?

Ai chi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth?

Ie

Nac ie

Os mai'r ateb oedd '**ie**', ewch ymlaen i **Ran 3**. Fel arall, rhowch yr wybodaeth a ganlyn:

Eich enw llawn

Cyfeiriad

Rhif ffôn (dewisol)

Os nad chi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth, nodwch beth yw eich perthynas ag ef/hi.

Beth yw eich  
perthynas â'r  
Unigolyn dan sylw  
yn yr Wybodaeth

Os **NAD** chi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth, disgrifiwch yr hawl sydd gennych i gael manylion am eu Manylion Personol, gan amgáu caniatâd ysgrifenedig (e.e. gan yr Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth), sy'n ategu'r hawl hwn.

Pam bod gennych  
chi hawl i gael eu  
Gwybodaeth  
Personol?

Pa ganiatâd  
ysgrifenedig sydd  
wedi'i gynnwys  
gennych?

### Rhan 3 - Sut gredwch chi rydym ni'n prosesu Gwybodaeth Bersonol am yr Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth?

Byddwn yn chwilio am wybodaeth sy'n ymwneud â'r Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth drwy gyfeirio at yr wybodaeth isod.

Mae'r Cyngor yn prosesu gwybodaeth bersonol i'r dibenion canlynol. Byddai o gymorth pe baech yn **ticio'r** bylchau sydd gyferbyn â'r diben yr hoffech i ni ymchwilio iddo.

• Gwasanaethau Oedolion	
• Archwilio a Chaffael	
• Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	
• Marchnata a Chyfathrebu Corfforaethol	
• Adnoddau Dynol Corfforaethol	
• Moderneiddio Corfforaethol	
• Perfformiad a Gwella Corfforaethol	
• Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol	
• Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid	
• Addysg	
• Cynllunio rhag Argyfwng	
• Gwasanaethau Amgylcheddol	
• Rheoli Fflyd	
• Gwasanaethau Priffyrdd ac Isadeiledd	
• Technoleg Gwybodaeth	
• Cyfreithiol a Democrataidd	
• Polisi Cynllunio	
• Gwasanaethau Eiddo a Rheoli Asedau	
• Gwasanaethau Darparwyr	
• Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	
• Gwasanaeth Refeniw ac Asesu Budd-daliadau	
• Gwasanaethau i Blant	
• Datblygu Partneriaethau Strategol	
• Theatrau a Chynadledda	
Unrhyw ddiben arall na chafodd ei restru yn Adran 3 uchod	
Unrhyw wybodaeth arall a fydd o gymorth i chwilio am wybodaeth bersonol am yr Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth.	

## Rhan 4 - Pa ddogfennau allwch chi eu hanfon neu eu cyflwyno i gadarnhau mai ef/hi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth ac mai dyna ei gyfeiriad/chyfeiriad?

Mae'n rhaid i ni gael gweld y dogfennau gwreiddiol. Ni allwn dderbyn llungopiau. Sylwer y bydd CBS Conwy yn dychwelyd yr holl ddogfennau mor fuan â phosibl drwy bost cofrestredig.

Os ydych chi'n cyflwyno eich dogfennau'n bersonol, byddwn yn eu dychwelyd i chi ar ôl eu dilysu – ffoniwch 01492576070 i gael rhagor o wybodaeth.

(a) Rhaid i chi **gadarnhau mai ef/hi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth** drwy anfon un o'r dogfennau a restrir isod. Ticiwch y blychau priodol i nodi pa ddogfennau rydych wedi'u hamgáu.

<input type="checkbox"/>	Trwydded Yrru Lawn ddilys wedi'i chyhoeddi gan wlad sy'n rhan o'r EC/EEA
<input type="checkbox"/>	Llyfr rhent.
<input type="checkbox"/>	Tystysgrif Geni <b>neu</b> Dystysgrif Cofrestru Genedigaeth <b>neu</b> Dystysgrif Mabwysiadu
<input type="checkbox"/>	Pasport cyfredol dilys llawn <b>neu</b> Gerdyn Adnabod wedi'i gyhoeddi gan wlad sy'n aelod yr EC/EEA

Os yw enw'r Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth erbyn hyn yn wahanol i'r hyn a ddangosir ar y ddogfen rydych yn ei chyflwyno i gadarnhau mai ef/hi yw'r testun, rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol wreiddiol i gadarnhau bod yr Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth wedi newid ei (h)enw, e.e. Tystysgrif Priodas, papurau Archddyfarniad Terfynol neu Archddyfarniad Nisi, Gweithred Newid Enw neu Ddatganiad Statudol.

(b) Mae'n rhaid i chi hefyd **gadarnhau cyfeiriad yr Unigolyn dan sylw yn yr Wybodaeth** trwy anfon un o'r dogfennau a restrir isod atom. Ticiwch y blychau priodol i nodi pa ddogfen rydych wedi'i hamgáu.

<input type="checkbox"/>	Bil nwy, trydan, dŵr neu ffôn yn enw'r Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth am y chwarter diwethaf
<input type="checkbox"/>	Hawliad Treth y Cyngor yn enw'r Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth am y chwarter diwethaf
<input type="checkbox"/>	Cyfriflen Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Gerdyn Credyd yn enw'r Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth am y chwarter diwethaf
<input type="checkbox"/>	Llythyr at yr Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth gan gyfreithiwr/gweithiwr cymdeithasol/swyddog prawf yn ystod y chwarter diwethaf

(c) Pan **ofynnir am luniau CCTV**, bydd rhaid darparu ffotograff o destun y data er mwyn canfod y llun cywir.

Nodwch a fydddech yn fodlon gyda gweld y lluniau a recordiwyd yn unig.

Byddwn

Na fyddwn

## Datganiad Ffurfiol

Wrth arfer yr hawl a roddwyd i mi dan delerau Deddf Diogelu Data 1998, rwyf yn gwneud cais i chi am gopi o'r Wybodaeth Bersonol am yr Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth rydych yn eu prosesu i'r dibenion rwyf wedi'u nodi trosodd.

Rwyf yn cadarnhau mai dyma'r holl Wybodaeth Bersonol rwyf yn gwneud cais am fynediad iddi.

Rwyf yn cadarnhau hefyd mai fi yw'r Unigolyn dan sylw yn yr wybodaeth, neu fy mod yn gweithredu ar ei r(h)an.

Amgaeaf ffi o £10.00 (Sieciau yn daladwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Llofnod

Printiwch yr  
enw

Dyddiad

### Gwnewch yn siŵr eich bod wedi

- |                          |   |
|--------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> | a) cwblhau'r ffurflen hon                                   |
| <input type="checkbox"/> | b) llofnodi'r datganiad uchod                               |
| <input type="checkbox"/> | c) amgáu'r dogfennau gwreiddiol i brofi mai chi yw'r testun |
| <input type="checkbox"/> | d) amgáu'r ffi berthnasol                                   |

Anfonwch y ffurflen hon gyda'r holl ddogfennau at:

**Uned Llywodraethu Gwybodaeth'  
Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy  
Bodlondeb  
Ffordd Bangor  
Conwy  
LL32 8DU**

***Rydym yn argymhell eich bod yn anfon eich ffurflen a'ch dogfennau trwy ddull diogel e.e. post cofrestredig***